**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd Nos Fawrth 18 o Fehefin 2019 am 7:00yh yn Menter Fachwen, Cwm y Glo**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Philip Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Richard Robinson, Hefin Jones, Cemlyn Jones, Beca Brown, Goronwy Hughes, Alan Pritchard, Martin Jones, Meirwen Lloyd, Haf Williams.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Clifford Williams

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cyngor Gwynedd dros Cwm y Glo.

**Aelodau o'r cyhoedd:** Ruth Jones, Jenny Bensley

**Clerc:** Meirion Jones

**420. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod yn enwedig i'r ddwy aelod o'r cyhoedd

**421. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**422. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn berthnasol

**423. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 21 Mai 2019**

Cadarnhawyd cofnodion 21 Mai 2019 ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**424. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

**Eitem 405 – Wal ar y ffordd i'r fynwent**

Adroddwyd fod y wal wedi disgyn yn y lle roedd yn bylchio ac roedd yn ei gwneud yn anodd iawn i yrru car tuag at y fynwent. Adroddwyd fod y Parchedig Robert Townsend wedi ei hysbysu o'r cwymp ac fod rhywfaint o'r gerrig y wal wedi eu codi oddi ar y ffordd.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a'r Parchedig Robert Townsend i holi os yw'n bosib dod a gwaith y wal ymlaen ac i sicrhau fod gweddill y wal yn ddiogel yn y cyfamser

**Eitem 406 – Llenwi dwy sedd wag ar y Cyngor**

Nodwyd nad oedd y dyddiad ble gellir 10 aelod o'r cyhoedd wneud cais i Gyngor Gwynedd am etholiad wedi pasio eto felly nid oedd yn bosib gwneud trefniadau ar gyfer cyfethol.

**Eitem – 414 – Clwb Ieuenctid**

Adroddwyd fod cyfarfod wedi drefnu ar gyfer Nos Lun 24 o Fehefin am 7:00yh yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug i drafod hyn gyda swyddogion o'r gwasanaeth ieuenctid Gyngor Gwynedd ynghyd a'r deilydd portffolio'r gwasanaeth

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**425. I dderbyn adroddiad yr archwiliwr mewnol (copi wedi gylchredeg)**

Dosbarthwyd adroddiad diwygiedig yn y cyfarfod yn hytrach na'r un roedd wedi rhannu gyda'r agenda a cofnodion yn dilyn ymateb i'r adroddiad cyntaf.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a gweithredu ar y pwyntiau a argymhellir

**426. I ystyried 3 cwyn a dderbyniwyd parthed ysbwriel (copi wedi atodi)**

Adroddwyd fod y Cyngor Cymuned wedi derbyn 3 cwyn gan etholwr.

a) Problem ysbwriel wrth ochr y ffordd yn ardal Ceunant a Tan y Coed;
b) wal wedi disgyn ar y llwybr sydd yn mynd rhwng Bryn Ffridd a Tan y Coed Isaf;
c) nifer o gamerâu TCG wedi eu gosod o gwmpas Clawdd Llwyd ar y llwybrau cyhoeddus.

**Penderfynwyd:**

a) Cysylltu a'r gwasanaeth i'w hysbysu o'r gwyn;
b) Cyfeirio'r mater tuag at y Swyddog Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd a gofyn iddynt ymweld a'r safle ynghyd ac ymweld a maes carafannau Brynteg yn ogystal.
c) Fel (b) cyfeirio'r mater at y swyddog llwybrau

**427. I ystyried pennu diwrnod arall o gasglu ysbwriel cymunedol**

Adroddwyd fod cais wedi dderbyn yn holi pa bryd y bwriedir cynnal diwrnod casglu ysbwriel nesaf yn Llanrug a Cwm y Glo.

Nodwyd fod Merched y Wawr yn cynnal diwrnod casglu ysbwriel ar y 10fed o Orffennaf.

**Penderfynwyd:** Trefnu dyddiadau casglu ysbwriel fel a ganlyn

Cwm y Glo: 20 o Orffennaf 2019
Llanrug: 27 o Orffennaf 2019

**428. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Polisi Cynllunio a Canllawiau Cynllunio Atodol**

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi comisiynu bargyfreithiwr i edrych ar un o'r Canllawiau Cynllunio Atodol, yn dilyn hyn maent yn herio a yw y canllaw newydd yn rhoi gymaint o bwyslais ar yr iaith Cymraeg ag sydd yn bosibl pan yn penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae swyddogion y Cyngor yn edrych ar y datganiad.

**Polisi Gosod Tai Cymdeithasol**

Mae'r Cyngor yn mynd i fabwysiadu Polisi Gosod Tai Newydd. Y prif wahaniaeth rhwng y polisi newydd a'r hen, yw fod y polisi newydd wedi ei selio ar 4 band, yn hytrach na pwyntiau unigol fel o dan yr hen bolisi. Fe fydd y polisi newydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl lleol.

**Ail Fodelu Gofal Cartref**

Y sefyllfa bresennol ydi fod Gofalwyr Cartref yn gweithio yn fratiog hefo cyfnodau o hanner awr wrach yma ac acw. O dan y sustem newydd byddai y gofalwyr yn gweithio "shifft" ddwedwn o bedwar awr. Byddant yn gweithio mewn ardaloedd cyfyngedig ac hefyd mi fydd ymgais i unioni y cyflog rhwng y darparwyr allanol a'r cyngor.

**Yn Lleol**

**Fandaliaeth**

Rhywun wedi bod yn malurio ceir yn oriau mân y bore 7fed o Fehefin, wedi cysylltu hefo'r heddlu am ddiweddariad - nid ydynt wedi cael unrhyw wybodaeth a fuasai yn eu helpu i ddal y rhai oedd yn gyfrifol.

**Cyfyngiad Cyflymder**

O 1af o Orffennaf fydd cyfyngiad cyflymder dros dro o 30 milltir yr awr, ar y ffordd i mewn i Gaernarfon heibio stad Cibyn trwy mae gwaith yn mynd ymlaen ar y ffordd osgoi

**Penderfynwyd:** Diolch a derbyn yr adroddiad

**429. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

<u>Cau Ffordd yr Orsaf</u>

Mi fydd Cyngor Gwynedd yn ail wynebu rhannau o Ffordd yr Orsaf ym mis Awst. Cychwynnir y gwaith ar 8 Awst a cwblheir o fewn tua 10 diwrnod.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**430. I benderfynu ar gam ymlaen ar y tir ger y Feddygfa (Cyng Haf Williams)**

Adroddwyd fod llain o dir ger y feddygfa, Llanrug ble nad yw'n bosib adeiladu tŷ arno. Nodwyd fod y Cyngor wedi ysgrifennu ar y datblygwr yn holi beth oedd ei fwriad gyda'r llain o dir yma, ond nid oedd ymateb wedi dod i law.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a'r feddygfa i holi os ydynt gyda bwriad i ddefnyddio'r tir ac oes bosib cyd-weithio ar y cynllun

**431. I dderbyn diweddariad am gais am grant ar gyfer offer i'r meysydd chwarae.**

Adroddwyd fod holiaduron wedi mynd i Ysgol Gynradd ac i Ysgol Brynrefail i holi'r disgyblion am eu anghenion ac fod rheini nawr yn dechrau dod yn ôl.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**432. I dderbyn adroddiad ar gyflwr ein llwybrau cyhoeddus ac i ystyried cael dyfynbris am y gwaith o docio llwybr (au) yn dilyn tyfiant eleni.**

Nodwyd fod gwaith brys wedi gorfod ei wneud ar yn llwybr yn dilyn cwyn gan breswylydd ble roedd tyfiant o'r llwybr yn tyfu drwy ei ffens.

Adroddwyd ymhellach bydd y contractwyr sydd yn tocio llwybrau yn cychwyn ei gwaith cyn ddiwedd y mis.

**Penderfynwyd:** Oherwydd y gwaith sydd ei angen ar y llwybr yma, penderfynwyd i'r clerc gysylltu a'r swyddog grantiau i holi os oes bosib cael grant i docio a gwella'r llwybr

**433. I ystyried cwyn a dderbyniwyd parthed parcio ceir ger LL55 4AN (manylion eisoes wedi atodi)**

Ar gyfer yr eitem yma, roedd Ruth Jones a Jenny Bensley yn bresennol. Roedd y Cyngor wedi derbyn cwyn gan Ms Ruth Jones parthed ceir yn parcio ger ei eiddo a ceir yn gôr yrru yn ogystal. Rhoddodd y ddwy ddarlun o'r sefyllfa ynghyd a'r problemau maent yn ei dderbyn o ddydd i ddydd.

**Penderfynwyd:**

**a)** Diolchwyd iddynt am ddod i'r cyfarfod ac i egluro ei pryder;
**b)** Mynegwyd cydymdeimlad y cyngor cymuned gyda'i sefyllfa ond eglurwyd mai mater i Gyngor Gwynedd ydi hyn oherwydd mai nhw sydd yn gyfrifol am briffyrdd;
**c)** Y Clerc i ddwyn y mater i sylw Cyngor Gwynedd ac i'r Cynghorydd Charles Jones

**434. I ystyried cyhoeddi manylion presenoldeb aelodau ar y Cyngor Cymuned.**

Nodwyd nad oedd yn ofynnol oddi tan y rheolau i adrodd ar bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd o'r Cyngor ar wahân. Mae hyn yn wahanol ar gyfer cyhoeddi faint o dreuliau a neu gostau teithio mae aelod wedi ei hawlio yn ystod y flwyddyn. Nodwyd os oes rhywun angen gwybod beth yw presenoldeb aelod mewn cyfarfodydd o'r cyngor neu bwyllgor mae'n aelod ohono, yna gellir cael hyn mewn dau ffordd arall, sef drwy wneud cais at Glerc y cyngor neu drwy ymchwilio drwy gofnodion y cyngor sydd yn cefnogi presenoldeb pawb, gan hefyd nodi unrhyw ymddiheuriadau.

**Penderfynwyd:** Peidio ar hyn o bryd creu adroddiad ar wahân ar bresenoldeb ond gellir ail edrych ar hyn yn y dyfodol.

**435. Cais Cynllunio**

a) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0494/23/DA
**Rhif Cyfeirnod Porth Cynllunio:**
**Lleoliad y Safle:** Gallt Y Celyn, Llanberis, Gwynedd, LL554EH
**Dyddiad Cofrestru:** 24/05/2019
**Math o Gais:** Llawn – Cynllunio
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Diwygiad ansylweddol i ganiatâd cynllunio rhif C16/1234/23/LL er mwyn gosod ffenestr gromen yn y to.

**Statws:** Cais wedi benderfynu

**Penderfynwyd:** Dim sylw - penderfyniad eisoes wedi ei wneud

**436. I ystyried unrhyw fater yn ymwneud a'r Fynwent**

Nodwyd fod y Parchedig Robert Townsend yn y broses o drefnu i rhywun dwtio'r wal ond yn dilyn i ddarn o'r wal ddymchwel roedd y mater nawr angen sylw brys.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Parch. Robert Townsend a gofyn iddo os gallai dod i gyfarfod mis Gorffennaf.

**437. I dderbyn sylwadau gan y Swyddog Llwybrau am y gŵyn a dderbyniwyd parthed llwybr cyhoeddus (eitem 419 cyfarfod mis Mai).**

Nodwyd fod llythyr wedi ei gyhoeddi yn Eco'r Wyddfa gan y gŵr a mynegwyd pryder fod y llythyr wedi ei gyhoeddi heb unrhyw gysylltiad a'r cyngor cymuned. Nodwyd ymhellach fod y cyngor cymuned wedi cael ymateb gan y Swyddog Llwybrau sydd yn cadarnhau fod y gŵr ddim wedi cerdded ar y llwybrau cyhoeddus ac ei fod wedi cerdded ar dir preifat.

**Penderfynwyd:**

- **a)** Anfon copi o ymateb Cyngor Gwynedd iddo sydd yn cadarnhau ei fod wedi cerdded ar dir preifat;
- **b)** Ymateb i'w lythyr i'r rhifyn nesaf o'r Eco;

Daeth y cyfarfod i ben am 21:25

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: